Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

# Y Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) - Nodyn cryno o'r broses ymgysylltu

26 Mawrth 2020

## Cefndir

Fel rhan o waith craffu Cyfnod 1 y **Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau** ar y **Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru)**, mae Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi bod yn casglu safbwyntiau tenantiaid a landlordiaid ar draws Cymru.

## Methodoleg

Trefnodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion gyfres o grwpiau ffocws gyda thenantiaid rhwng 14 Chwefror a 13 Mawrth 2020. Cofnodwyd safbwyntiau landlordiaid fel rhan o arolwg a gynhaliwyd dros yr un cyfnod.

Bydd y crynodeb hwn yn amlinellu'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg o'r grwpiau ffocws gyda thenantiaid. Mae nodyn ar wahân ar gael, sy'n amlinellu canlyniadau'r arolwg.

Trefnwyd **8 sesiwn** ar draws Cymru yn cynnwys **51 o ddinasyddion** o **bedwar o bum rhanbarth y Cynulliad.** Trefnwyd sesiynau ar Ynys Môn (Caergybi) ac yng Nghaerdydd, Gwynedd (Bangor), Sir Benfro (Hwlffordd), ac Abertawe. Daeth y rhai a gymerodd ran yn y sesiynau o ardaloedd yr awdurdodau lleol uchod ac ardaloedd awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

Cafwyd cyfranogwyr o nifer o sefydliadau a grwpiau perthnasol, gan gynnwys Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, Digartref, Digartref Sir Benfro, Home-Start Cymru, Shelter Cyrmu, TPAS Cymru a'r Wallich. Hefyd, cafodd nifer o sefydliadau eraill gyfle i drefnu grwpiau ffocws.

## Fformat

Trafodwyd y themâu a ganlyn fel rhan o'r sesiynau:-

- Profiadau o droi allan
- Cymorth i'r rhai sy'n cael eu troi allan neu'n wynebu hynny
- Effaith troi allan ar iechyd a llesiant
- Safbwyntiau ar gynigion Llywodraeth Cymru

## Crynodeb o'r prif themâu

### Profiad o droi allan

*"Mae'r landlord a brynodd yr eiddo roeddwn yn byw ynddo'n prynu llawer o eiddo yn y Barri ac yn eu troi'n dai a rennir. Roeddwn yn un o dri thenant yn byw yn yr eiddo.*

*Roedd un dyn wedi bod yno ers 36 mlynedd. Roedd y landlord wedi ein sicrhau y byddai'n cadw pob un ohonom. Ddau ddiwrnod cyn y Nadolig, rhoddodd hysbysiad adran 21 i bob un ohonom."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Bro Morgannwg***

*Yn ddiweddar, cafodd fy chwaer hysbysiad adran 21. Mae wedi bod yn byw yno ers 20 mlynedd ac mae'r landlord wedi gwerthu'r tŷ oddi tani. Mae'n anabl ac wedi cael ei gorfodi i symud i lety nad yw'n addas. Mae'n byw mewn adfyd ac mae'n iawn ar y landlord gan ei fod wedi gallu gwerthu'r tŷ."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Ceredigion***

Trafododd cyfranogwyr grwpiau ffocws yn helaeth eu profiadau o droi allan. Er bod yr amgylchiadau troi allan yn amrywio rhwng cyfranogwyr (ac yn cynnwys achosion pan oedd y tenant ar fai), roedd pethau cyffredin rhwng y grwpiau ffocws.

Nid oedd tua hanner yr holl gyfranogwyr grwpiau ffocws yn ymwybodol nad yw'n ofynnol i landlord roi rheswm dros ddymuno cymryd meddiant o'r eiddo wrth gyflwyno hysbysiad troi allan o dan adran 21 o Ddeddf Tai 1988. Serch hynny, i'r cyfranogwyr a gafodd reswm gan eu landlord, nodwyd awydd neu angen i werthu'r eiddo fel y rheswm mwyaf cyffredin.

*"Roedd fy merch tua 5 oed ac roeddem wedi symud i mewn i lety rhent preifat heb fod yn bell o Lanbedr Pont Steffan. I ddechrau, roedd y perchnogion yn mynd i symud*

*i ffwrdd, ond aeth hynny i'r wal, felly roeddent am gael eu tŷ'n ôl. Roeddwn wedi bod yn yr eiddo ers tua blwyddyn.*

*Rhoddodd y landlord fis o rybudd i mi, ond dywedodd y cyngor wrthyf y byddai'n rhaid i mi gael hysbysiad troi allan adran 21. Fel arall, byddwn yn cael fy ystyried yn fwriadol ddigartref. Dywedodd wrthyf y dylwn aros yn yr eiddo nes y byddai'n rhaid i mi fynd i'r llys.*

*Er i mi fod mewn sefyllfa anodd, nid oeddwn yn teimlo ei bod yn deg i'r landlord gan mai cartref ei deulu oedd hwn.*

*Y diwrnod roedd yn rhaid i ni adael oedd y diwrnod y cawsom wybod i ble roeddem yn mynd – lle gwely a brecwast yn y Ceinewydd, tua 20 milltir o lle roeddwn.* Nid oeddwn yn gyrru ac roedd gennyf anabledd.

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Ceredigion***

Esboniodd un cyfranogwr ei bod wedi bod yn rhentu ei chartref yn breifat gyda'i dwy ferch ers tua 8 mlynedd ond, yn ddiweddar, y gofynnodd ei landlord iddi adael yr eiddo oherwydd ei fod am ei werthu. Nid yw wedi cael hysbysiad troi allan adran 21 ffurfiol eto.

*"Daeth cnoc ar y drws un prynhawn Sadwrn i ddweud ei bod am i mi symud allan oherwydd ei bod am werthu'r eiddo. Rwy'n fam sengl ac, oherwydd salwch, nid wy'n gweithio ar hyn o bryd, felly rwy'n cael budd-daliadau.*

*Roeddwn wedi dioddef cam-drin domestig ac mae'r cartref hwn wedi bod yn noddfa i ni. Mae gennyf ddwy ferch ac mae eu hysgol o gwmpas y gornel. Maent yn ffynnu yno, ond nid wy'n gwybod a fyddwn yn gallu aros yn yr ardal. Mae mor anodd methu dweud wrth fy merched i ble rydym yn mynd."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Caerdydd***

Esboniodd nifer o gyfranogwyr eu bod wedi cael hysbysiad troi allan adran 21 ar ôl rhoi gwybod i'w landlord na fyddent yn gallu talu rhent uwch. Esboniodd rhai cyfranogwyr y bu achosion pan oedd eu landlord wedi codi'r rhent, er bod yr eiddo mewn cyflwr gwael gydag ychydig iawn o waith cynnal a chadw, os o gwbl, wedi'i wneud.

*"Rwyf wedi bod yn yr eiddo ers pum mlynedd. Mae mewn cyflwr gwael a daeth pobl o'r cyngor i asesu'r tŷ a dweud ei fod mewn cyflwr gwael. Talais fond gwerth £1,000 ac rwy'n talu £700 y mis mewn rhent. Mae angen i mi symud allan erbyn 17 Ebrill ac nid wy'n gwybod sut rwy'n mynd i dalu am le newydd."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Caerdydd***

## Y cyfnod rhybudd presennol

*“Pan rydych mewn llety rhent preifat, rydych yn dibynnu ar fympwy'r landlord. Mae ar bawb angen sicrwydd deiliadaeth oherwydd mai dyna beth sy'n gadael i chi ei wneud yn gartref, yn hytrach na thŷ rydych yn byw ynddo.”*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Caerdydd***

Cytunodd yr holl gyfranogwyr fod y cyfnod rhybudd dau fis presennol yn annigonol ac yn peri nifer o broblemau i'r rhai sy'n wynebu cael eu troi allan. O broblemau ariannol i wneud trefniadau eraill ar gyfer addysg a gofal.

Cytunodd cyfranogwyr sy’n fyfyrwyr y byddai'r sefyllfa'n arbennig o ansicr ar rai mannau cul yn ystod y flwyddyn academaidd.

*“Os ydych yn fyfyriwr ac yn digwydd bod yng nghanol arholiadau neu draethawd hir, ac wedi cael hysbysiad “troi allan heb fai” ac wedi cael 2 fis i adael yr eiddo –* byddai hynny'n erchyll.

*Nid wyf hyd yn oed yn siŵr y byddech yn cael rhyddid gan y brifysgol o ran estyniad ar gyfer gwaith cwrs, er enghraifft."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Caerdydd***

## Cymorth

Roedd barn gymysg gan gyfranogwyr ynghylch lefel a digonolrwydd y cymorth sydd ar gael i unigolion sy’n cael eu troi allan neu sydd dan fygythiad o gael eu troi allan.

*“Nid yw staff awdurdodau lleol yn ddigymwynas, ond mae’r galw’n eu trechu.”*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Ceredigion***

*“Nid oes gan y bobl rydym yn gweithio gyda hwy syniad beth i'w wneud nesaf. Pan gyflwynir hysbysiad troi allan iddynt, maent yn dechrau cynhyrfu. Nid yw'n glir i ble mae'n rhaid mynd, beth i'w wneud a beth yw eu hawliau...felly maent yn dechrau cynhyrfu ar unwaith. Nid yw hynny'n gostegu nes iddynt ddod o hyd i rywle arall. Yna, pan ddewch o hyd i rywle, rydych yn tybio pa mor hir y cewch aros yno."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Caerdydd***

Esboniodd rhai cyfranogwyr a drafododd geisio cymorth gan wasanaeth dewisiadau tai'r cyngor na all helpu nes bod unigolyn mewn argyfwng.

> *"Rydych yn mynd at y gwasanaeth dewisiadau tai ac nid yw'n gwneud dim byd nes ei bod yn bryd i chi gael eich troi allan. Bydd y gwasanaeth dewisiadau tai'n dweud wrthych am geisio dod o hyd i eiddo gosod preifat am fod y rhestr aros am dai cymdeithasol mor hir. Yna, y broblem ychwanegol yw nad yw cynifer o landlordiaid yn derbyn pobl sy'n cael budd-daliadau neu bobl gydag anifeiliaid anwes. Mae'r anghydbwysedd pŵer rhwng landlord a thenant yn enfawr."*
>
> ***Cyfranogwr grŵp ffocws, Caerdydd***
>
> *"Mae fy landlord wedi dweud wrthyf fod angen i mi adael fy nghartref ac rwyf wedi treulio'r penwythnos cyfan yn ceisio gwglo beth i'w wneud* – dywedodd y gwasanaeth dewisiadau tai y byddaf yn gwneud fy hun yn fwriadol ddigartref os byddaf yn symud allan cyn i mi gael yr hysbysiad swyddogol."
>
> ***Cyfranogwr grŵp ffocws, Caerdydd***

Hefyd, trafododd y cyfranogwyr bwysigrwydd cael cartref sefydlog a sicr er mwyn gwneud y newidiadau mewn bywyd.

## Iechyd a llesiant

> *"Gall fod yn arbennig o drawmatig pan fyddwch yn berson hŷn. Mae'n gwneud i chi deimlo'n ddi-werth ac mae mor straenus. Mae'n gwneud i chi feddwl, 'Ble ydw i'n mynd i fynd, a beth ydw i'n mynd i'w wneud?! Rydych yn dychryn."*
>
> ***Cyfranogwr grŵp ffocws, Bro Morgannwg***
>
> *"Gadawais berthynas ddrwg iawn, gamdriniol gyda'u tad. Mae ein tŷ ni wedi bod yn lle diogel. Roedd yn rhaid i mi fynd â hi i'r feddygfa yr wythnos diwethaf. Dywedodd ei hysgol fod ganddi orbryder a bod llawer o hynny oherwydd y problemau gyda'n cartref. Nid wy'n gwybod i ble y byddwn yn mynd. Ein rhent yw £595 a'r lle rhataf y gallaf ddod o hyd iddo yw £700. Deuthum o hyd i eiddo gerllaw a fyddai wedi bod yn ddelfrydol gan y byddai wedi golygu y gallai fy merched aros yn yr un ysgol – ond ni fydd y landlord yn derbyn rhywun sy'n cael budd-daliadau, hyd yn oed gyda gwarantwr.* Mae mor straenus."
>
> ***Cyfranogwr grŵp ffocws, Caerdydd***

Roedd y problemau ynghylch iechyd meddwl yn brif thema drwy gydol yr holl sesiynau ymgysylltu.

Roedd bygythiad troi allan, yn enwedig gyda chyfnod rhybudd mor fyr, wedi peri i gyfranogwyr sôn am deimladau o straen, gorbryder a chywilydd.

*"Weithiau, os ydych wedi cael eich troi allan, mae'n rhaid i chi ddod o hyd i rywun i fynd â'ch dodrefn – nid pawb sy'n gallu fforddio talu am le storio.* Neu, yn waeth fyth, mae'n rhaid gwerthu'r dodrefn, sy'n golygu eich bod yn dechrau o'r newydd. Mae hynny'n anodd iawn."

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Bro Morgannwg***

*Esboniodd un cyfranogwr sydd â phrofiad o ddigartrefedd a phroblem camddefnyddio sylweddau sy'n ceisio gweddnewid ei fywyd fod y cyfnod rhybudd presennol yn peri broblemau:*

*"I rywun fel fi, mae'n ddychrynllyd. Rwy'n ceisio gweddnewid fy mywyd ac, ymhen cwpl o fisoedd, byddaf yn dod oddi ar sgript. Rwy'n chwilio am waith, ond mae'n anodd cael llety addas... mae meddwl am syrthio'n ôl i mewn gyda phobl â phroblemau dibyniaeth yn ddychrynllyd."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Caerdydd***

*Dylai eich cartref fod yn noddfa i chi. Mae'n effeithio ar iechyd meddwl, hyd yn oed os nad oes gennych broblemau ymlaen llaw, mae'n dal i fod yn straenus iawn.*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Caerdydd***

*Mae fy mab dan ofal tîm iechyd meddwl sylfaenol ac mae'n eithaf agored i niwed ar hyn o bryd. Mae'n hoffi trefn. Yn ogystal â'r bygythiad troi allan a phroblemau iechyd meddwl, rwy'n ymdrechu'n wyllt i gael trefn ar bethau. Rwy'n poeni o ble mae arian yn mynd i ddod. Rwy'n teimlo'n eithaf negyddol ar hyn o bryd oherwydd yr ansicrwydd, ac mae'n sylwi ar hynny."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Caerdydd***

## Landlordiaid cowboi

Cytunodd y rhan fwyafrif o gyfranogwyr fod landlordiaid, yn eu profiad hwy, wedi dilyn y weithdrefn gywir wrth gyflwyno hysbysiad adran 21.

Fodd bynnag, esboniodd rhai cyfranogwyr y bu achlysuron pan oedd rhai landlordiaid, y cyfeiriwyd atynt fel landlordiaid *'cowboi'*, wedi osgoi'r weithdrefn gywir yn fwriadol er

mwyn cael meddiant cynnar o eiddo. Yn aml, roedd hyn yn golygu rhoi ychydig o rybudd, os o gwbl, i'r tenant, a newid y cloeon. Esboniodd un cyfranogwr fod un o gydnabod y landlord wedi bygwth *“curfa”* iddo pe na bai’n gadael yr eiddo.

*“Collais fy holl feddiannau i’m landlord preifat ychydig o flynyddoedd yn ôl oherwydd dyledion rhent. Roedd gennyf broblem dibyniaeth ar gyffuriau. Newidiodd y cloeon. Aeth â’m holl feddiannau* oddi wrthyf – roedd gennyf wely drud ac roedd wedi diflannu.”

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Caerdydd***

*“Roeddwn yn rhentu’n breifat a chollais fy swydd, felly ni allwn dalu fy rhent. Cefais fy nhroi allan bum diwrnod cyn y Nadolig heb ddim rhybudd, gan ddefnyddio grym ymosodol.”*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Caerdydd***

## Digartrefedd

*“Bob tro rwyf wedi bod yn ddigartref, rwyf wedi cael fy nhroi allan.”*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Caerdydd***

Esboniodd rhai cyfranogwyr fod cael eu troi allan o eiddo yn aml wedi arwain at ddigartrefedd. Roedd llawer wedi cael trafferth gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau, a oedd yn golygu bod colli eu cartref yn aml yn tarfu ar y sefydlogrwydd a'r drefn sydd eu hangen er mwyn adsefydlu.

## Cynigion newydd

Roedd yr holl gyfranogwyr yn unfrydol yn eu cefnogaeth i ymestyn yr isafswm cyfnod rhybudd ar gyfer achos troi allan *“heb fai”* o ddau fis i chwe mis. Byddai'n rhoi mwy o sicrwydd a sefydlogrwydd i denantiaid, wrth fod yn deg i'r landlord hefyd.

*“Mae 6 mis yn deg i’r ddwy ochr. Ni fyddech am i'r hysbysiad troi allan hongian dros eich pen am fwy na hynny.”*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Bro Morgannwg.***

Esboniodd y cyfranogwyr y byddai'r diwygiadau arfaethedig yn rhoi digon o amser i bobl ddod o hyd i lety arall a lleddfu'r pwysau ariannol. Hefyd, esboniodd un cyfranogwr y byddai cyfnod rhybudd estynedig yn golygu bod tenantiaid yn fwy tebygol o adael ar delerau da gyda’u landlord, a all fod yn bwysig os oes angen geirdaon.

*"Mae pwynt i'w wneud yma o ran rhoi'r ochr arall. Gyda'm landlord i, hwnnw oedd cartref ei deulu a dylai fod ganddo bob hawl i'w gael yn ôl i fyw ynddo ei hun – nid i'w osod ar rent.* Gallai fod yn yr un sefyllfa anodd â fi. Gorau po fwyaf yr amser."

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Ceredigion***

*"Nid yw 6 mis yn amser hir iawn i bobl drefnu eu bywydau. Pa mor bell ydyw o'r gwaith, yr ysgol, yr effaith ar iechyd meddwl."*

**Cyfranogwr grŵp ffocws, Abertawe**

*Hefyd, mae chwe mis yn rhoi mwy o amser i awdurdod lleol fod yn rhagweithiol a mwy o amser i roi trefn ar bethau. Mae ceisio aildrefnu symud cartref mewn 8 wythnos yn drychinebus. Mae 6 mis yn well. Yn gyffredinol, dylai tenantiaid preifat osod prydles hwy na blwyddyn. Nid hyn yw cylch gwaith y Bil."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Ceredigion***

Roedd rhai cyfranogwyr o'r farn, er bod y cynigion yn gam i'r cyfeiriad cywir, nad yw'n cynnig sicrwydd tymor hir o hyd.

*"Mae'r holl ddeddfwriaeth yn gam i'r cyfeiriad cywir, ond nid yw'n ddigon i ddiwallu awydd y rhan fwyaf o bobl am le parhaol i fyw. Nid yw'r rhan fwyaf o bobl o oedran penodol am symud cartref bob ychydig o fisoedd. Rwy'n credu y gallai effaith hynny ar lesiant pobl ac ar deulu fod yn ddinistriol."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Ceredigion***